



CYNGOR BWRDEISTREF SIROL WRECSAM GORCHYMYN GWARCHOD MANNAU CYHOEDDUS

Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlisma 2014

Parc a Mynwent Rhosddu - Ffordd Rhosddu, Wreccsam, LL11 2NS

Cyf Arolwg Ordnans (AO): 3332 3508

Rhoddir rhybudd drwy hyn bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam ("Y Cyngor") trwy weithredu ei bwerau dan Adranau 59, 63 a 72 Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlisma 2014 ("Y Ddeddf") a than yr holl bwerau galluogi eraill, yn cynnig llunio'r gorchymyn canlynol: o fewn yr ardal sydd wedi'i marcio yn goch ar y cynllun atodedig (y gelwir wedi hyn yn "ardal gyfyngedig ddynodedig")

Daw'r Gorchymyn i rym ar 21 Mawrth 2016 a daw i ben ar 20 Mawrth 2019.

Effaith y Gorchymyn yw gosod y gwaharddiadau canlynol ar y defnydd o'r ardal gyfyngedig ddynodedig:

1. SYLWEDDAU MEDDWOL

Y gwaherddir Unigolyn (unigolion) yn yr ardal gyfyngedig ddynodedig rhag bwyta, yfed, mewnanadlu, chwistrellu, ysmegu neu ddefnyddio unrhyw sylweddau meddwol mewn unrhyw ddull arall a rhag paratoi unrhyw weithgareddau o'r fath. Diffinnir sylweddau meddwol fel sylweddau â'r gallu i ysgogi neu ostwng y system nerfol ganolog. (At ddibenion y paragraff hwn, mae hyn yn cynnwys unrhyw gynnyrch arall a geir yn gyfreithlon sy'n feddwol o ran ei natur, gan eithrio alcohol)

2. GWAHARDD YFED ALCOHOL

Ni chaiff unrhyw unigolyn yfed alcohol neu fod â chynhwysydd agored sy'n cynnwys alcohol yn eu meddiant yn yr ardal gyfyngedig ddynodedig.

Mae Adran 63 y Ddeddf yn nodi lle bydd cwnstabl neu unigolyn awdurdodedig yn credu'n rhesymol eich bod:

- yn neu wedi bod yn yfed alcohol yn groes i'r gorchymyn hwn; neu
- yn bwriadu yfed alcohol yn groes i'r gorchymyn hwn

Efallai y bydd y cwnstabl neu'r unigolyn awdurdodedig angen i chi

- (a) Beidio ag yfed alcohol, yn groes i'r gorchymyn, neu unrhyw beth y mae'r cwnstabl neu'r unigolyn awdurdodedig yn credu'n rhesymol mai alcohol ydyw;
- (b) Ildio unrhyw beth yn eich meddiant sydd yn, neu y mae'r cwnstabl neu'r unigolyn awdurdodedig yn credu'n rhesymol ei fod yn alcohol neu'n gynhwysydd ar gyfer alcohol.

Mae'n drosedd i unigolyn, heb esgus rhesymol, i beidio â chydymffurfio â gofyniad a gyflwynir gan gwnstabl neu unigolyn awdurdodedig dan Adran 63.

Bydd unigolyn sy'n euog o drosedd yn agored wedi euogfarn yn Llys yr Ynadon i ddirwy o ddim uwch na lefel 2 ar y raddfa safonol.

3. YSMYGU MEWN ARDAL CHWARAE PLANT

Ni chaniateir i unrhyw unigolyn ysmegu tybaco, cynnyrch sy'n gysylltiedig â thybaco gan gynnwys sigarennau llysieuol neu unrhyw sylwedd anghyfreithlon, o fewn ffin yr ardal chwarae plant yn yr ardal gyfyngedig ddynodedig.

4. UNIGOLION MEDDW

Gwaherddir unigolion mewn cyflwr meddw o'r ardal gyfyngedig ddynodedig.

5. TROETHI AC YSGARTHU

Ni chaiff unrhyw unigolyn droethi nac ysgarthu o fewn yr ardal gyfyngedig ddynodedig.

6. CYSGU YN YSTOD ORIAU'R NOS

Ni chaiff unrhyw unigolyn gysgu yn yr ardal gyfyngedig ddynodedig yn ystod oriau'r nos.

7. GOLLWNG SBWRIEL

Ni chaiff unrhyw unigolyn ollwng sbwriel yn yr ardal gyfyngedig ddynodedig.

8. BAW CŴN

Gwaherddir baw cŵn o'r ardal gyfyngedig ddynodedig. Bydd yn drosedd pe bai unrhyw unigolyn sy'n gyfrifol am gi, sy'n ysgarthu ar y tir a nodir yn y Gorchymyn, yn peidio â chodi'r baw ci, oni bai y gall yr unigolyn ddangos esgus rhesymol dros fethu â gwneud hynny neu fod perchennog/deilydd y tir wedi rhoi caniatâd iddo beidio â gwneud hynny.

9. CADW CŴN DAN REOLAETH

Rhaid cadw cŵn dan reolaeth dynn yn yr ardal gyfyngedig ddynodedig. Gofynnwn fod cŵn yn cael eu cadw o fewn golwg eu perchennog ac y byddant yn dychwelyd ar unwaith wrth alw arnynt.

10. EITHRIADAU

Ni fydd dim yn y gorchymyn hwn yn berthnasol i berson sydd -

(a) wedi'i gofrestru fel person dall mewn cofrestr a luniwyd o dan adran 29

Deddf Cymorth Gwladol 1948; neu

(b) yn fyddar, mewn perthynas â chi a hyfforddwyd gan Hearing Dogs for Deaf People

(rhif elusen cofrestredig 293358) ac y mae'n dibynnu arno am gymorth; neu

(c) sydd ag anabledd sy'n effeithio ar ei symudedd, ei ddehurwydd llaw, cydsymud corfforol neu ei allu i godi, cario neu symud gwrthrychau bob dydd, mewn perthynas â chi a hyfforddwyd gan elusen ragnodedig ac y mae'r person hwnnw yn dibynnu arno am gymorth.

At ddiben y gorchymyn hwn —

- Ystyrir y bydd person sydd â chi yn ei feddiant yn gyfrifol am y ci hwnnw ar unrhyw adeg oni bai bod rhyw berson arall â chyfrifoldeb dros y ci ar yr adeg honno;
- Bydd gosod y baw ci mewn cynhwysydd ar y tir a ddarperir ar gyfer y diben, neu ar gyfer gwaredu gwastraff, yn ddigonol ar gyfer ei symud oddi ar y tir;
- Ni fydd bod yn anymwybodol o'r baw (p'un ai oherwydd nad oeddech yn y cyffiniau ai peidio), neu ddim â theclyn neu ddull arall addas o gael gwared ar y baw ci yn esgus rhesymol dros fethu â symud y baw ci

- mae "person awdurdodedig yr Awdurdod" yn golygu cyflogai, asiantaeth partneriaeth neu gontractwr o Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam sydd wedi'i awdurdodi yn ysgrifenedig gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

- Mae pob un o'r canlynol yn "elusen a ragnodwyd" -

- _ Dogs for the Disabled (rhif elusen gofrestredig 700454)

- _ Support Dogs Limited (rhif elusen gofrestredig 1088281)

- _ Canine Partners for Independence (rhif elusen gofrestredig 803680)

COSB

Bydd unrhyw unigolyn sy'n euog o drosedd mewn perthynas â methu â chydymffurfio ag unrhyw un o baragraffau 1 a 3 i 9 uchod yn agored i gollfarn ddiannod o ddirwy nad yw'n uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol.

COSB BENODEDIG

Gall cwnstabl neu unigolyn awdurdodedig gyflwyno hysbysiad cosb benodedig i unrhyw un y mae ef neu hi yn credu sydd wedi cyflawni trosedd. Bydd gan yr unigolyn sy'n cyflawni'r drosedd 14 diwrnod i dalu'r gosb benodedig o £100 (neu £75 os caiff ei dalu o fewn 7 diwrnod), ac os na thelir y gosb efallai y cânt eu herlyn.

APÊL

Gellir cyflwyno unrhyw her i'r Gorchymyn i'r Uchel Lys gan unigolyn â diddordeb o fewn 6 wythnos ar ôl iddo gael ei lunio. Unigolyn â diddordeb yw rhywun sy'n byw yn yr ardal gyfyngedig, yn gweithio'n yr ardal gyfyngedig yn rheolaidd neu'n ymweld â'r ardal gyfyngedig. Mae hyn yn golygu mai dim ond y rhai yr effeithir arnynt yn uniongyrchol gan y cyfyngiadau sydd â'r hawl i herio. Mae'r hawl i herio hefyd yn bodoli pan gaiff y Gorchymyn ei ddiwygio gan y Cyngor.

Gall unigolion â diddordeb herio dilysrwydd y Gorchymyn ar ddwy sail:

nad oedd gan y Cyngor y pŵer i wneud y Gorchymyn neu i gynnwys gwaharddiadau neu ofynion penodol: neu

ii) neu nad ydynt wedi cydymffurfio ag un o'r gofynion o fewn y ddeddfwriaeth, ymgynghori er enghraifft.

Pan wneir cais gall yr Uchel Lys benderfynu gwahardd gweithrediad y Gorchymyn wrth aros am benderfyniad y Llys, yn rhannol neu'n ei gyfanwydd. Mae gan yr Uchel Lys y gallu i gynnal y Gorchymyn, ei ddiddymu neu ei ddiwygio.

Dyddiedig ydydd o2016

Gosodwyd Sêl Gyffredin
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL WRECSAM
ym mhresenoldeb:

.....
PENNAETH GWASANAETHAU CORFFORAETHOL A CHWSMERIAID
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL WRECSAM
NEUADD Y DREF
WRECSAM

